

# CYNLLUN STRATEGOL

## 2025–29

citb Cymru Wales







# CYNNWYS

**Rhagair** 04

**Ynglŷn â CITB** 06–11

– Yr Hyn Rydym Wedi'i Gyflawni 08

– Gweithio gyda Diwydiant 09

– Lefi'r Diwydiant Adeiladu 10

– Cenhedloedd a Rhanbarthau 11


**Trosolwg o'r Cynllun Strategol** 12

**Ysbrydoli a Galluogi Pobl Amrywiol a Medrus i Mewn i Adeiladu** 14

**Datblygu System Hyfforddiant a Sgiliau i Ddiwallu Anghenion y Presennol a'r Dyfodol** 16

**Cefnogi'r Diwydiant i Hyfforddi a Datblygu ei Gweithlu** 18

**Gwybodaeth Ariannol** 20



# RHAGAIR

Gan **Peter Lauener**, Cadeirydd, a **Tim Balcon**, Prif Weithredwr



**Mae llwyddiant y diwydiant adeiladu yn y dyfodol yn bwysig i ni gyd.** Mae'r cartrefi, datblygiadau masnachol, a'r seilwaith a adeiladwn yn ysgogi twf economaidd, sy'n sail i'n hansawdd bywyd. Mae ein Llywodraeth newydd wedi ei gwneud yn glir ei bod am ailadeiladu Prydain, gydag ymgyrch i adeiladu 1.5 miliwn o gartrefi newydd dros bum mlynedd. Yn ogystal, bydd strategaeth seilwaith 10 mlynedd newydd yn ysgogi twf economaidd a chyflawni ymrwymiadau sero net.

Mae hwn yn agwedd gadarnhaol ar gyfer y diwydiant adeiladu, ond mae hefyd yn golygu ei bod hyd yn oed yn bwysicach bod gan y diwydiant y sgiliau sydd eu hangen arno.

Mae'n hanfodol, felly, inni gefnogi cynifer o bobl ifanc â phosibl, sy'n dechrau prentisiaethau neu gyrsiau coleg, i wneud eu gyrfaoedd yn y diwydiant; ein bod yn creu llwybrau newydd i ddenu oedolion; a'n bod yn cefnogi cyflogwyr i uwchsgilio a chadw eu sgiliau gweithwyr.

Mae'r Cynllun Strategol hwn yn nodi sut y bydd CITB, mewn cydweithrediad â diwydiant a'r Llywodraeth, yn cefnogi anghenion sgiliau adeiladu am y pedair blynedd nesaf. Mae'n adeiladu ar ymgysylltiad helaeth â chyflogwyr, sydd eisoes wedi helpu i siapio newidiadau yn y ffordd y mae CITB yn gweithio.

Mae cyflogwyr bach a micro wedi dweud wrthym eu bod yn teimlo bod y fiwrocratiaeth o ran cyllid yn gymhleth. Felly, rydym wedi datblygu Tîm Cymorth i Newydd-ddyfodiaid (NEST) i ddarparu gwell cymorth i gyflogwyr, gan ei gwneud yn haws iddynt recriwtio a hyfforddi gweithwyr newydd. Mae tîm NEST eisoes wedi helpu dros 1,100 o gyflogwyr nad ydynt wedi hyfforddi ei gweithwyr yn flaenorol i ddod yn gyflogwyr hyfforddi.

Mae popeth a wnawn yn CITB yn ymwneud â diwallu anghenion sgiliau a hyfforddiant y diwydiant, a dyna pam y mae sut rydym yn ymgysylltu mor bwysig i ni. Rydym wedi sefydlu Rhwydweithiau Cyflogwyr mewn ardaloedd a sectorau lleol, a fydd yn llywio penderfyniadau fwyfwy ynghylch sut i ddiwallu anghenion diwydiant.

Mae'r Cyngor Arweinyddiaeth Adeiladu wedi amlygu pwysigrwydd cefnogi cwmnïau i allu cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelwch Adeiladau, gan sicrhau bod ansawdd a safonau'n cael eu cyflawni. Gan weithio gydag arbenigwyr yn y diwydiant, gwnaethom flaenoriaethu'r fframweithiau diogelwch hollbwysig hyn ac rydym wedi cwblhau'r pump cyntaf.

Daw llwybrau gyrfa mewn llawer o ffurfiau, gyda sylfeini cryf yn hanfodol i lwyddiant. Dechreuodd llawer o arweinwyr diwydiant eu gyrfa yn un o'n tri safle Coleg Adeiladu Cenedlaethol. Mae cyflogwyr yn dal i ddweud wrthym ba mor bwysig yw'r canolfannau hyn, gan chwarae rhan unigryw a hollbwysig wrth gadw sgiliau arbenigol megis sgaffaldio, gyrru craeniau, simneio a gweithredu peiriannau cloddio a pheiriannau eraill. Sgiliau sy'n hanfodol i gynnal safonau uchel o ddiogelwch ar y safle. Mae ein tîm yn y colegau wedi gweithio'n galed i ddiwallu anghenion y diwydiant ac wedi cynyddu cyfraddau cyflawniad o ychydig dros 50% i 70%.

Rydym wedi gwrando ar ddiwydiant ac wedi dangos y byddwn yn cymryd camau cyflym i fynd i'r afael â phwyntiau sy'n peri pryder. Yn yr Alban fe wnaethom weithredu i gadw sgiliau treftadaeth a oedd mewn perygl o gael eu colli am byth. Fe wnaethom gymryd drosodd y gwaith uniongyrchol o ddarparu prentisiaethau llorio yn ein Coleg Cenedlaethol Adeiladu yn Glasgow, gan sicrhau y gellid cynnal y sgiliau hyn hefyd. Fe wnaethom hefyd gefnogi CECA Scotland i ddatblygu rhaglen gweithwyr medrus peirianneg sifil newydd i lenwi bylchau seilwaith sylweddol. Yng Nghymru, rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid lleol i ddarparu cymorth ac arbenigedd wrth i brosiectau Porthladdoedd Rhydd Cymru a gwynt ar y môr gael eu cyflwyno.

Fodd bynnag, gwyddom fod llawer mwy i'w wneud. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n holl randdeiliaid, Llywodraeth y DU, a'r llywodraethau datganoledig i barhau i ddiwallu anghenion y diwydiant adeiladu yn y dyfodol, fel yr ydym wedi cael y fraint o'i wneud am y 60 mlynedd diwethaf.


Mae Adolygiad yr ITB a gyhoeddwyd yn ddiweddar, dan arweiniad Mark Farmer, yn adleisio ein dadansoddiad ein hunain o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau a hyfforddiant diwydiant yn y dyfodol. Fe welwch lawer o argymhellion yr Adolygiad yn cael eu hadlewyrchu yn y strategaeth hon.

Rydym yn cyhoeddi'r strategaeth hon fel rhan o'n paratoadau ar gyfer proses Consensws, a fydd yn dechrau ym mis Mawrth 2025. Drwy'r broses hon rydym yn gofyn am eich cefnogaeth i barhau â'r lefi hyfforddi diwydiant tan 2029. Rydym yn falch o'r hyn yr ydym wedi gallu ei gyflawni yn y cyfnod Consensws diwethaf i gefnogi sgiliau a thwf yn y diwydiant.

Ein hymrwymiad i holl gyflogwyr y diwydiant yw y byddwn yn ailddyblu ein hymdrechion dros y pedair blynedd nesaf i sicrhau bod gan y diwydiant y gweithlu medrus y bydd ei angen arno i ailadeiladu Prydain.

**PETER LAUENER**
CADEIRYDD

**TIM BALCON**
PRIF WEITHREDWR



# YNGLŶN Â CITB



## PWY YDYM NI

Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) yw'r Corff sgiliau a safonau a arweinir ac a ariennir gan gyflogwyr ar gyfer y diwydiant adeiladu ym Mhrydain Fawr, a sefydlwyd ym 1964. Rydym yn elusen, ac yn gorff cyhoeddus anadrannol, a noddir gan yr Adran Addysg. Mae ein gwaith yn cefnogi diwydiant i ddenu, datblygu a chadw'r gweithlu adeiladu. Rydym yn cynnal safonau hyfforddiant adeiladu ac yn cadw Prydain yn adeiladu'n ddiogel.

## GWNEUD EIN GWELEDIGAETH YN REALITI

Ein pwrpas yw cefnogi'r diwydiant adeiladu i gael gweithlu medrus, cymwys a chynhwysol, nawr ac yn y dyfodol. Mae ein gwaith hyd yma wedi'i lywio gan bwrpas. Rydym wedi:

- **Helpu cyflogwyr i ddenu mwy o bobl i ymuno â'r diwydiant**
- **Ariannu hyfforddiant achrededig o ansawdd uchel, sydd ar gael pan a lle mae ei angen**
- **Dros y pedair blynedd diwethaf, wedi buddsoddi dros £200m bob blwyddyn, gan godi i £265m yn 2024, i gefnogi recriwtiad a hyfforddi staff newydd**
- **Nodi sgiliau yn awr ac yn y dyfodol, gan ddarparu atebion ar gyfer sut y gellir eu diwallu.**

Rydym yn helpu gweithleoedd i ddod yn fwy diogel, yn fwy cynhwysol ac yn fwy cynhyrchiol. Mae hyn, yn ei dro, yn helpu i greu a chynnal amgylchedd adeiledig cynaliadwy o safon fyd-eang sydd o fudd i bob un ohonom.

Mae ein gweledigaeth yn syml. Darparu gweithlu cymwys a chynhyrchiol (dileu'r bwlch sgiliau). Gwyddom fod yn rhaid i ni newid y system sgiliau er mwyn cyflawni hyn. Ond ni allwn wneud hyn ar ein pennau ein hunain; mae angen i ddiwydiant a'i randdeiliaid chwarae eu rhan. Mae gan CITB sefyllfa unigryw i helpu i gyflawni hyn; gwrando ar gyflogwyr, gweithio gyda Llywodraethau, a defnyddio'r adnoddau a ddarperir gan Lefi'r diwydiant yn effeithiol i arwain y trawsnewid.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, mae angen inni fod â ffocws a bod yn hyblyg, bod yn barod i ymateb i heriau diwydiant a chyfleoedd. Mae ein gwerthoedd craidd yn ein helpu i greu'r dyfodol yr ydym am ei brofi:

- **Cydweithredol – Rydym yn gwrando ac yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni ar gyfer diwydiant**
- **Cyson – Rydym yn deall blaenoriaethau cyflogwyr ac yn parhau i ganolbwyntio ar eu cyflawni**
- **Atebol – Rydyn ni'n cyflawni'r hyn rydyn ni'n dweud rydyn ni am ei gyflawni**
- **Cynhwysol – Nid ydym yn gadael unrhyw un ar ôl ac yn cynnwys pob grŵp.**

## COLEG ADEILADU CENEDLAETHOL

Bydd ein buddsoddiad yn y Coleg Adeiladu Cenedlaethol yn creu gwerth sylweddol i'r diwydiant adeiladu drwy ein cynnig hyfforddiant ehangach, addysgu, dysgu a chymorth rhagorol, a'n harweinyddiaeth ddisglair ar draws y sector hyfforddi ehangach.

Bydd y Coleg yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer darparu sgiliau adeiladu, tyfu ein darpariaeth i ddiwallu anghenion diwydiant, a defnyddio ein harbenigedd i wella'r hyfforddiant a ddarperir ar draws y rhwydwaith addysg bellach ehangach.

Byddwn yn ymestyn ein harlwy cwricwlwm i unrhyw feysydd o fewn cwmpas sy'n cael eu gwasanaethu'n wael, o ran ansawdd neu sydd â galw heb ei ddiwallu. Bydd rhaglenni a llwybrau newydd yn cael eu datblygu yn unol ag anghenion y diwydiant. Bydd NCC yn ddarparwr o ddewis, gan gefnogi prosiectau seilwaith ar raddfa fawr gan sicrhau bod anghenion sgiliau hanfodol yn cael eu diwallu.

Mae'r Coleg Adeiladu Cenedlaethol mewn sefyllfa unigryw o fewn y system sgiliau adeiladu i ymgymryd â'r rôl hon. Y cyfleusterau sydd ar gael yn galluogi'r Coleg i ddarparu gwasanaeth na all darparwyr eraill ei wneud.

## CYFLWR Y DIWYDIANT

Dywedodd ein hadroddiad Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu diweddaraf (CSN) y rhagwelir y bydd y gwaith adeiladu yn tyfu ar gyfartaledd o 2.4% y flwyddyn rhwng nawr a 2028. Er mwyn bodloni'r twf hwn, mae angen tua 250,000 o weithwyr adeiladu ychwanegol erbyn 2028, a disgwylir i gyflogaeth adeiladu godi i 2.75m.

Mae'r diwydiant adeiladu fel arfer yn recriwtio tua 200,000 o bobl bob blwyddyn. Er gwaethaf hyn, yn 2023 roedd cyfartaledd o 38,000 o swyddi gweigion yn cael eu hysbysebu bob mis. I bron i draean (31%) o gyflogwyr adeiladu, dod o hyd i staff â'r sgiliau addas yw eu her allweddol o hyd, yn enwedig gyda mwy o weithwyr hŷn yn ymddeol a neb yn cael eu penodi yn eu lle.

Yn y tymor byr mae adeiladu yn parhau i wynebu heriau, megis prisiau deunyddiau cynyddol, prinder sgiliau, a chostau benthyca uwch. Mae talu anfonebau drwy'r gadwyn gyflenwi a diffyg archwaeth gan fanciau i gefnogi cyflogwyr adeiladu yn ei gwneud yn anodd ehangu. Mae cyflogaeth adeiladu hefyd wedi gostwng yn 2024, yn enwedig ymhlith yr hunan-gyflogedig, tra bod swyddi gweigion yn parhau i fod yn uchel.

Er gwaethaf yr heriau y mae'r diwydiant yn eu hwynebu, mae ymrwymiad y Llywodraeth i dwf, yn ogystal â diwygio'r system sgiliau, yn cynnig ystod eang o gyfleoedd i'r diwydiant.

# YR HYN RYDYM WEDI'I GYFLAWNI

**Ers y cynllun strategol diwethaf, rydym wedi:**

- Ymgynghori â thros 1000 o gyflogwyr i lunio'r strategaeth hon
- Sefydlu cynlluniau sector a rhwydweithiau cyflogwyr, gan roi llais uniongyrchol i gyflogwyr ar gyllid
- Gweld cynnydd sylweddol yn nifer y cyflogwyr a gefnogir ac sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant
- Mwy o gefnogaeth ymarferol trwy NEST, a rhwydweithiau lleol.

**Dim ond rhai o'r cyflawniadau ers Consensws diwethaf y diwydiant sydd i'w gweld isod:**

**17,900**
o unigolion wedi'u hyfforddi fel Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl

**615,000**
o gyrsiau hyfforddi byr wedi'u hariannu gan grantiau

DROS
**£188m**
wedi'i thalu mewn grantiau hyfforddi Prentisiaeth

DROS
**78,000**
o Brentisiaid wedi'u cefnogi

DROS
**£37m**
mewn cyllid i gefnogi cyflogwyr micro, bach a chanolig o'r Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant

Wedi recriwtio a chefnogi dros
**1600**
o lysgenhadon STEM i ddarparu cyngor gyrfaoedd gyda **50%** ohonynt yn fenywod ym maes adeiladu

DROS
**37,000**
o ddysgwyr wedi'u hyfforddi trwy Rwydweithiau Cyflogwyr ers iddynt gael eu lansio

**5** Fframwaith Cymhwysedd
wedi'u cwblhau a'u cytuno gyda diwydiant

Wedi cynyddu'r gyfradd cyflawniad gyfartalog yn ein Coleg Adeiladu Cenedlaethol i **70%** ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol o **54%** (Lloegr)

HYFFORDDWYD
**450**
o Brentisiaid Sgaffaldio yn Lloegr, sef **25%** o'r holl ddarpariaeth Prentisiaethau yn Lloegr

HYFFORDDWYD
**34**
o Brentisiaid Diogelu rhag Mellt, sef **100%** o'r holl ddarpariaeth Prentisiaethau yn Lloegr



# GWEITHIO GYDA DIWYDIANT

**Yr unig ffordd y gallwn ddatrys yr heriau sgiliau yw trwy bartneru a chydweithio â diwydiant.**

Rydym am i gyflogwyr a diwydiant fod yn ganolog wrth wneud penderfyniadau ar eu heriau sgiliau eu hunain a sut yr ydym yn mynd i'r afael â hwy, felly mae gennym ni gynrychiolwyr diwydiant o gwmnïau o bob maint ar ein Bwrdd. Mae gennym Gynghorau Gwledydd ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban, sy'n cyfarfod bob chwarter fel y gallwn glywed yn uniongyrchol sut mae anghenion sgiliau yn esblygu ym mhob cenedl, ac ym mhob sector. Rydym wedi cynyddu cynrychiolaeth cyflogwyr a diwydiant ar ein Cynghorau. Mae ein Pwyllgor Ariannu Diwydiant yn cyfarwyddo sut mae dros £160m o gyllid diwydiant yn cael ei wario bob blwyddyn.

Mae ein timau Ymgysylltu â Chwsmeriaid yn gweithredu ym mhob rhanbarth a chenedl ym Mhrydain Fawr. Maent yn cefnogi pob cyflogwr, o fusnesau bach a chanolig i gyflogwyr mwy, i gael mynediad at gynnyrch a gwasanaethau, yn ogystal â deall beth yw eu hanghenion ac a ydynt yn cael eu diwallu.

Mae ein 14 Sefydliad Rhagnodedig yn cynrychioli barn cyflogwyr o wahanol feintiau a sectorau, gan sicrhau ein bod yn clywed yr hyn sydd bwysicaf. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda grwpiau ar draws y diwydiant fel y Cyngor Arweinyddiaeth Adeiladu fel y gallwn nodi anghenion sgiliau sy'n dod i'r amlwg yn gyflym.

Trwy Gynlluniau Sgiliau Sector wedi'u teilwra, rydym yn gweithio i fynd i'r afael ag anghenion penodol sectorau gwahanol. Rhanddeiliaid y diwydiant adeiladu sy'n berchen ar y cynlluniau hyn ac yn eu llunio, gan amlinellu camau gweithredu ac ymyriadau clir i'r heriau sgiliau ym mhob sector.

Yn ogystal, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Rhwydweithiau Cyflogwyr lleol, a sefydlir ac a ariennir gan CITB i roi ffordd syml i gyflogwyr gael mynediad at hyfforddiant a chyllid. Yn hollbwysig, maent hefyd yn galluogi cyflogwyr i ddweud eu dweud am gyllid ar gyfer hyfforddiant i fynd i'r afael ag anghenion sgiliau eu rhanbarth yn awr ac yn y dyfodol.



## GWNEUD GWAHANIAETH I GYFLOGWYR

**"Roedd Natalie yn gallu fy arwain drwy'r prentisiaethau cywir ar gyfer ein cwmni, creu disgrifiadau swydd a hysbysebion, siarad â chyrff lleol sy'n rheoli'r mathau hyn o brentisiaethau, yn ogystal â chyllid CITB. Heb Natalie fyddwn i ddim wedi gallu gwneud hyn...rwy'n ddiolchgar am ei gwybodaeth a'i harbenigedd."**

**Holly Kattenhorn**,
LA Kattenhorn a Partners Ltd

**"Mae'r tîm yn wybodus iawn ac yn mynd yr ail filltir. Fel cwmni newydd doedden ni ddim yn ymwybodol o'r cymorth/grantiau oedd ar gael, fe helpodd CITB bob cam o'r ffordd."**

**Pav Rainu**, Develco

**"Mae'r gwasanaeth hwn wedi symleiddio fy llwyth gwaith yn sylweddol, gan wneud fy mywyd gymaint yn haws. Rwy'n argymell gwasanaeth Rhwydwaith Cyflogwyr CITB yn fawr i unrhyw un sy'n chwilio am ffordd effeithlon a didrafferth o reoli eu hanghenion hyfforddi."**

**Katie Field**, DRG Interior and Building Solutions, Swydd Gaerwrangon

## GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH GYDAG ECITB

Fel y ddau Fwrdd Hyfforddi Diwydiant olaf sy'n weddill, mae CITB ac ECITB yn rhannu heriau cyffredin, yn enwedig o ran prosiectau seilwaith mawr. Rydym yn datblygu cynllun gweithlu ar y cyd i fynd i'r afael ag anghenion hyfforddi yn Sizewell C, a fydd yn gweithredu fel model ar gyfer prosiectau mawr eraill y mae galw mawr amdanynt.

Mae ein partneriaeth wedi ehangu i gynnwys cynllunio gweithlu strategol, mynd i'r afael â phrinder hyfforddwyr ac aseswyr, archwilio modelau cymhwysedd, ac ystyried atebion fel pasbortau sgiliau.

# LEFI'R DIWYDIANT ADEILADU

### LEFI'R DIWYDIANT ADEILADU

Cawn ein hariannu'n bennaf gan gyflogwyr drwy lefi statudol. Mae 21,400 o gyflogwyr yn talu ein lefi a 45,600 o gyflogwyr pellach sydd o fewn cwmpas y lefi, ac y gellir eu cefnogi gan grantiau a chyllid o'r lefi, ond sydd o dan y trothwy esemptiad o'r lefi a osodir ar lefel i leihau'r baich ariannol i'r cyflogwyr lleiaf.

Mae'r lefi'n golygu bod pob cyflogwr sydd uwchlaw'r trothwy yn cyfrannu at gostau gwella sgiliau a defnyddir y cronfeydd lefi i helpu cyflogwyr gyfrannu at gostau hyfforddi. Gellir defnyddio'r lefi hefyd i fynd i'r afael â materion ar draws y diwydiant fel yr angen am fframweithiau cymhwysedd. Roeddem yn falch o weld bod adolygiad Farmer wedi cadarnhau'r angen parhaus am lefi diwydiant i gefnogi sgiliau.

Ochr yn ochr â'r lefi mae'r buddsoddiad ychwanegol mewn sgiliau a ddaw o raglenni a ariennir gan y Llywodraeth sy'n lluosi effaith cyfanswm buddsoddiad sgiliau. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Llywodraeth i wneud yn siŵr bod y Cynnig Twf a Sgiliau newydd yn ategu buddsoddiad y lefi ac yn diwallu anghenion y diwydiant adeiladu.

### CYNNIG LEFI 2026-2029

Mae angen i ddatblygiad y cynnig lefi gydbwyso talu costau cyflawni'r hyn a nodir yn y cynllun strategol a realiti'r amgylchiadau economaidd a wynebir gan gyflogwyr adeiladu. Mae ein Pwyllgor Strategaeth y Lefi, sy'n cynnwys arbenigwyr o'r diwydiant ac arbenigwyr annibynnol, yn cynghori ar osod y lefi.

Rydym wedi derbyn eu hargymhellion ein bod yn cynnal cyfraddau lefi ar yr un gyfradd â'r cyfnod 2022-2025, wrth ddiweddaru trothwyon esemptiad ac eithriad ar gyfer chwyddiant. Ffactor allweddol wrth dderbyn yr argymhellion hyn yw'r adborth a dderbyniwyd drwy'r broses ymgynghori yn ogystal ag ystyried yr heriau y mae cyflogwyr yn eu hwynebu.

Disgwyliwn y bydd hyn yn golygu incwm ardoll o tua £239 miliwn y flwyddyn dros y cyfnod 2026-2029. Yn ogystal, rydym yn codi arian o weithgareddau masnachol sy'n cael ei fuddsoddi yn ôl i'n cefnogaeth i ddiwydiant.

Cyhoeddir manylion ein cynlluniau incwm a gwariant yn ein cynllun busnes blynyddol. Bydd y cynllun ar gyfer 2025-26 yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2025.

## CYLLID

Yn ystod cyfnod y strategaeth hon, byddwn yn rhoi mwy o reolaeth i gyflogwyr dros benderfyniadau ariannu er mwyn mynd i'r afael yn well ag anghenion busnes uniongyrchol a blaenoriaethau hirdymor y diwydiant.

Rydym wedi cynyddu hyblygrwydd o ran cyllid hyfforddi, gan alluogi busnesau i flaenoriaethu hyfforddiant yn lleol drwy Rwydweithiau Cyflogwyr, tra bydd cynlluniau sector yn nodi meysydd buddsoddi cenedlaethol. Bydd hyn yn rhoi mwy o ddewis i gyflogwyr ac yn addasu i anghenion lleol a sector heb gael eu rhwymo gan safoni.


Er mwyn sicrhau'r sgiliau cywir, byddwn yn lleihau rhwystrau hyfforddi trwy gynnig cymhellion grant uwch ar gyfer hyfforddi newydd-ddyfodiaid neu weithwyr presennol i gymhwysedd. Byddwn yn rhoi cymhorthdal i gostau hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer hyfforddiant safonol sy'n bodloni safonau cymhwysedd y diwydiant.

Byddwn yn symleiddio mynediad at gyllid drwy leihau nifer y cronfeydd a'r cynlluniau, gan dorri ar fiwrocratiaeth i'w gwneud yn gyflymach ac yn haws i gyflogwyr gael y cymorth sydd ei angen arnynt.



# CENHEDLOEDD A RHANBARTHAU

**Mae anghenion sgiliau a'r cyd-destun y cânt eu darparu ynddo yn amrywio ar draws gwahanol rannau o Brydain Fawr. Rydym yn gweithio ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i sicrhau ein bod yn deall ac yn gallu ymateb i anghenion sgiliau lle bynnag y mae cyflogwyr. Bydd CITB yn gweithio gyda'r holl weinyddiaethau i gynrychioli'r diwydiant adeiladu a chefnogi llywodraethau i roi polisïau sy'n ymwneud ag adeiladu ar waith.**



## CYMRU

Mae'r system sgiliau yng Nghymru yn datblygu'n gyflym gyda chreu Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil). Am y tro cyntaf, bydd un corff yn goruchwylio'r holl addysg ôl-16.

I gefnogi, byddwn yn:

- **Gweithio gyda Medr i gynyddu amrywiaeth ac alinio'r system sgiliau ag anghenion economaidd Cymru**
- **Cefnogi cynllun sero net Llywodraeth Cymru a sicrhau bod hyfforddiant yn bodloni'r galw am ddulliau adeiladu newydd**
- **Sicrhau eglurder piblinellau i gynllunio'r gweithlu ar gyfer ystadau'r sector cyhoeddus a thai cymdeithasol a fforddiadwy newydd**
- **Cynorthwyo gyda chynllunio gweithlu strategol ar gyfer y sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu dau borthladd rhydd newydd a seilwaith ynni glân.**

## YR ALBAN

Mae'r system darparu sgiliau yn yr Alban yn cael ei thrawsnewid gyda diwygiadau arfaethedig i rolau a chyfrifoldebau cyrff cyhoeddus.

I gefnogi, byddwn yn:

- **Gweithio gyda chorff newydd Cymwysterau'r Alban i sicrhau bod cymwysterau'n bodloni anghenion cyflogwyr**
- **Cydweithio â Llywodraeth yr Alban i symleiddio cyfrifoldebau am Brentisiaethau a chymorth i fyfyrwyr, gan eiriol dros fwy o fewnbwn gan gyflogwyr wrth ddylunio, darparu a dyrannu Prentisiaethau Modern mewn adeiladu**
- **Gweithio gyda Llywodraeth yr Alban i wneud cyfleoedd hyfforddi a ariennir yn fwy hygyrch a hyblyg, gan gefnogi llwybrau lluosog i gymhwysedd.**

## LLOEGR

Nod cynlluniau uchelgeisiol y llywodraeth i ddiwygio'r system sgiliau yn Lloegr yw dyfnhau datganoli rhanbarthol a lleol, sbarduno twf economaidd, cyflawni sero net, adeiladu 1.5 miliwn o gartrefi newydd, a denu buddsoddiad – nodau sydd i gyd yn dibynnu ar sgiliau adeiladu. Trwy greu Skills England a chynnig Twf a Sgiliau mwy hyblyg, yn lle'r Lefi Prentisiaethau, mae'r llywodraeth yn ceisio system sgiliau sydd wedi'i halinio'n well ag anghenion y diwydiant.

I gefnogi, byddwn yn:

- **Cynorthwyo gyda gweithredu'r Cynnig Twf a Sgiliau newydd i sicrhau ei fod yn cefnogi'r diwydiant adeiladu yn effeithiol**
- **Cyfrannu at y Strategaeth Ôl-16 i greu tirwedd sgiliau cliriach a mwy hyblyg ar gyfer dysgwyr a chyflogwyr**
- **Trwy gynrychiolaeth, amlygu rôl hanfodol adeiladu yn y strategaeth ddiwydiannol fel sector hollbwysig**
- **Trwy Gynlluniau Gwella Sgiliau Lleol (LSIPs) a pholisïau datganoledig, eirioli dros y canlyniadau gorau ar gyfer adeiladu yn lleol**
- **Gweithio gydag Awdurdodau Cyfun Maerol i sefydlu cytundebau fframwaith cenedlaethol, Cynlluniau Twf Lleol, porthladdoedd rhydd ac ymyriadau polisi eraill**
- **Cytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i gyflawni diwygiadau fel y Warant Ieuenctid, gan helpu i ddod â mwy o bobl i mewn i'r diwydiant adeiladu.**

Yn 2023, fel rhan o'n Hymgynghoriad â Diwydiant, clywsom gan gyflogwyr o bob maint, darparwyr hyfforddiant a rhanddeiliaid yn y system sgiliau adeiladu. Dywedasoch wrthym beth yr ydych angen inni ganolbwyntio arno; cael mwy o bobl hyfforddedig i mewn i ddiwydiant, sicrhau bod hyfforddiant perthnasol o ansawdd da ar gael ar yr amser a'r lle cywir, a gwella sgiliau'r gweithlu presennol.

# TROSOLWG O'R CYNLLUN STRATEGOL



## GWELEDIGAETH

Darparu gweithlu cymwys a chynhyrchiol (dileu'r bwlch sgiliau).

## DIBEN

Cefnogi'r diwydiant adeiladu i ddatblygu gweithlu medrus,cymwys a chynhwysol nawr ac yn y dyfodol.

### YSBRYDOLI A GALLUOGI POBL AMRYWIOL A MEDRUS I MEWN I ADEILADU

Byddwn yn cynyddu nifer y newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant adeiladu a mwy o fuddsoddiad gan gyflogwyr mewn hyfforddeion.

**Mae mesurau allweddol yn cynnwys:**

- Dros 15,000 o newydd-ddyfodiaid i gyflogaeth trwy lwybrau ychwanegol
- Hyrwyddo gyrfaoedd a hyfforddiant adeiladu i dros 5 miliwn o ddarpar newydd-ddyfodiaid trwy amrywiaeth o weithgareddau atyniadol.

### DATBLYGU SYSTEM HYFFORDDIANT A SGILIAU I GWRDD AG ANGHENION Y PRESENNOL A'R DYFODOL

Byddwn yn sefydlu system sgiliau sydd wedi'i halinio'n well ag anghenion y diwydiant, sy'n symlach ac yn fwy ymatebol.

**Mae mesurau allweddol yn cynnwys:**

- Cynnydd o 5% yn hyder cyflogwyr ynghylch argaeledd hyfforddiant o 77% i 82%
- Cynnydd o 5% yn hyder cyflogwyr o ansawdd yr hyfforddiant o 76% i 81%.

### CEFNOGI'R DIWYDIANT I HYFFORDDI, DATBLYGU A CHADW EI WEITHLU

Gweithlu mwy medrus a chymwys gyda mwy o fuddsoddiad yn y gweithlu presennol, gan leihau dibyniaeth ar newydd-ddyfodiaid.

**Mae mesurau allweddol yn cynnwys:**

- 35,000+ o gyflogwyr wedi'u cefnogi gydag uwchsgilio
- 5,000+ o gyflogwyr newydd yn cymryd rhan mewn hyfforddiant.

## SUT RYDYM YN CYFLAWNI HYN

- CADW CYFLOGWYR YN GANOLOG
- RHWYDWEITHIAU DARPARWYR HYFFORDDIANT
- ARIANNU CYNLLUNIAU'R SECTOR
- PARTNERIAETHAU STRATEGOL
- ARCHWILIADAU DATA A CHYNLLUNIO'R GWEITHLU

## EIN GWERTHOEDD

CYDWEITHREDOL + CYSON + ATEBOL + CYNHWYSOL

# YSBRYDOLI A GALLUOGI POBL AMRYWIOL A MEDRUS I MEWN I ADEILADU



## Mae cyflogwyr wedi dweud wrthym mai eu blaenoriaeth fwyaf yw cael mwy o bobl hyfforddedig i mewn i ddiwydiant.

Mae cystadleuaeth ffyrnig gan ddiwydiannau eraill sy'n anelu at ddenu pobl newydd, gan ei gwneud yn hanfodol bwysig edrych ar ystod ehangach o newydd-ddyfodiaid i gynyddu'r gronfa recriwtio, yn ogystal â chreu gweithlu mwy amrywiol.

Mae diffyg cyfatebiaeth rhwng cyflenwad a galw. Mae unigolion yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r llwybr cywir i rôl mewn adeiladu a gall fod yn heriol yn economaidd i gyflogwyr fuddsoddi mewn prentisiaid a newydd-ddyfodiaid, o flaen gweithwyr profiadol.

### I FYND I'R AFAEL Â HYN, BYDDWN YN:

- Adolygu'r cymhellion grant a chyllid i gyflogwyr i wneud recriwtio newydd-ddyfodiaid yn fwy deniadol yn fasnachol
- Parhau i hyrwyddo a buddsoddi mewn Prentisiaethau, fel y llwybr blaenllaw ar gyfer hyfforddiant newydd-ddyfodiaid
- Buddsoddi mwy o adnoddau i fynd i'r afael â'r her o recriwtio a hyfforddi newydd-ddyfodiaid, gan ddarparu broceriaeth a chymorth drwy ein Tîm Cymorth i Newydd-ddyfodiaid ledled Prydain Fawr
- Parhau i gyflwyno hybiau sgiliau ar y safle sy'n hyfforddi pobl i fod yn barod am waith yn ogystal ag ateb y galw lleol
- Parhau i weithio gyda'n partneriaid AB yn yr Alban i ddarparu Prentisiaethau Modern o ansawdd uchel
- Adeiladu ar lwyddiant Am Adeiladu, gan ei ddatblygu i fod y prif borth gyrfaoedd ar gyfer adeiladu
- Datblygu deunyddiau ac ymgyrchoedd newydd sy'n arddangos adeiladu fel opsiwn gyrfa cyffrous
- Hyrwyddo modelau rôl cyflogwyr mewn ysgolion a cholegau, trwy ein rhaglen Llysgenhadon STEM, gan arddangos cyfleoedd cyffrous ym maes adeiladu
- Datblygu ein partneriaethau ymhellach i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach a mwy amrywiol, er enghraifft gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Adran Gwaith a Phensiynau i gefnogi cyn-droseddwyr
- Datblygu llwybrau ychwanegol, yn seiliedig ar fframweithiau cymhwysedd, i gynnig opsiynau hyblyg wedi'u hariannu i gyflogwyr sydd am hyfforddi newydd-ddyfodiaid o ystod amrywiol o gefndiroedd.

Erbyn diwedd y cynllun strategol hwn, byddwn yn gweld mwy o bobl yn ymuno â'r diwydiant adeiladu, a mwy o gyflogwyr yn buddsoddi mewn hyfforddeion.

Bydd mesurau craidd dros oes y cynllun strategol hwn yn cynnwys:

- **Dros 15,000 o newydd-ddyfodiaid i gyflogaeth trwy lwybrau ychwanegol**
- **Hyrwyddo gyrfaoedd a hyfforddiant adeiladu i dros 5 miliwn o ddarpar newydd-ddyfodiaid trwy amrywiaeth o weithgareddau atyniadol.**

### CADWRAETH

Gall cadw hyfforddeion a gweithwyr presennol ym maes adeiladu yn well lleihau'r prinder sgiliau yn sylweddol. Mae bron i 60,000 o ddarpar newydd-ddyfodiaid yn gadael y diwydiant bob blwyddyn. Byddwn yn mynd i'r afael â hyn drwy ddarparu:

- **Cefnogaeth ymarferol i fusnesau sy'n cyflogi newydd-ddyfodiaid**
- **Cyllid ar gyfer teithio, llety, a rhwystrau hyfforddi eraill**
- **Cymhellion wedi'u targedu ar yr adegau y mae unigolion yn fwyaf tebygol o adael hyfforddiant**
- **Cydweithio â'r Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant i wella cyfraddau cadw, gan ddefnyddio NCC fel Arweinydd Disglair**
- **Llwybrau ychwanegol i gymhwysedd yn cynnig mwy o hyblygrwydd ac yn darparu pont rhwng AB.**

Rydym hefyd yn anelu at gadw'r gweithlu presennol, gan fod llawer yn gadael oherwydd rhesymau y gellir eu hatal, fel diwylliant gwael yn y gweithle neu ddatblygiad gyrfa cyfyngedig. Bydd CITB yn gweithio gyda diwydiant i gynnig:

- **Hyfforddiant hyblyg ar gyfer dilyniant gyrfa**
- **Hyfforddiant neu gyllid am ddim ar gyfer pynciau fel cynhwysiant ac iechyd meddwl**
- **Buddsoddi mewn prosiectau a arweinir gan fusnes i wella diwylliant diwydiant.**

# DATBLYGU SYSTEM HYFFORDDIANT A SGILIAU I GWRDD AG ANGHENION Y PRESENNOL A'R DYFODOL



**Nid yw'r system sgiliau yn gweithio i ran fawr o'n diwydiant. Mae cyflogwyr ac unigolion wedi dweud wrthym eu bod yn gweld y system yn gymhleth ac yn anodd ei llywio, gydag ychydig o lwybrau amgen. Mae'n anhyblyg ac nid yw'n ddigon ystwyth i ymateb i'r galw cynyddol am sgiliau.**

Mae'r Llywodraeth a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn gweithio i ddiwygio'r system sgiliau ehangach. Ond mae angen inni hefyd roi newidiadau ar waith a fydd yn ategu'r diwygiadau hyn wrth ddiwallu anghenion diwydiant ar hyn o bryd.

## I FYND I'R AFAEL Â HYN, BYDDWN YN:

- Cynyddu gallu a chapasiti mewn Darpariaeth Hyfforddiant Adeiladu a fydd yn gwella cyfraddau cadw a chyflawniad gan arwain at hwb mewn cyflogaeth diwydiant
- Datblygu llwybrau ychwanegol i gymhwysedd, gan sicrhau bod cymwysterau addas at y diben ar gael ac yn hyblyg i anghenion y diwydiant
- Sefydlu Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant gyda sicrwydd ansawdd CITB i weithio ochr yn ochr â Rhwydweithiau Cyflogwyr i sicrhau bod hyfforddiant o ansawdd uchel ar gael ar lefel leol a chenedlaethol, yn seiliedig ar wybodaeth leol a arweinir gan gyflogwyr
- Datblygu cyfeirlyfr o ddarpariaeth hyfforddiant, gan wella mynediad at holl ddarpariaeth hyfforddiant sicr CITB
- Gweithio gyda Skills England i sicrhau bod newidiadau i'r system sgiliau ehangach yn cefnogi'r anghenion sgiliau adeiladu. Er enghraifft, sicrhau bod y Lefi Twf a Sgiliau yn cefnogi buddsoddiad yn yr hyfforddiant cywir ar gyfer y diwydiant adeiladu
- Gweithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig, Llywodraethau Cymru a'r Alban, i esblygu'r systemau sgiliau, gan ganolbwyntio ar gynyddu nifer y bobl sy'n ymuno â'r diwydiant ar ôl eu cwrs coleg a gwella cyfraddau cyflawni prentisiaethau
- Gosod y Coleg Adeiladu Cenedlaethol (NCC) fel arweinydd disglair i rannu ac annog arfer gorau mewn darpariaeth hyfforddiant
- Parhau i fuddsoddi yn NCC i fynd i'r afael â methiannau'r farchnad mewn darpariaeth hyfforddiant, er enghraifft, mewn sgiliau lloriau a threftadaeth a datblygu darpariaeth newydd i gefnogi safonau diogelwch adeiladau, sero net a dulliau adeiladu modern
- Gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â phrinder a gallu cenedlaethol hyfforddwyr ac aseswyr
- Mapio'r holl ddarpariaeth hyfforddiant adeiladu ar draws Prydain Fawr, gan dargedu buddsoddiad i gefnogi bylchau a meysydd twf.

Erbyn diwedd y cynllun strategol, byddwn wedi sefydlu sylfaen gref ar gyfer system sgiliau yn y dyfodol sy'n cyfateb yn well i anghenion y diwydiant. Byddwn yn darparu system sgiliau y gall pob diwydiant ei deall ac sy'n fwy ymatebol i'w hanghenion.

Bydd mesurau craidd dros oes y cynllun strategol hwn yn cynnwys::

- **Cynnydd o 5% yn hyder cyflogwyr ynghylch argaeledd hyfforddiant o 77% i 82%**
- **Cynnydd o 5% yn hyder cyflogwyr yn ansawdd yr hyfforddiant o 76% i 81%.**

## HYFFORDDWYR AC ASESWYR

Mae prinder hyfforddwyr ac aseswyr yn rhwystr i gyflwyno addysg a hyfforddiant effeithiol mewn adeiladu. Bydd CITB yn mynd i'r afael â hyn drwy:

- **Sicrhau hygyrchedd hyfforddiant, gan gynnwys darparu cymwysterau mewn meysydd lle mae prinder trwy'r NCC**
- **Cydweithio â'r rhwydwaith darparwyr hyfforddiant i gynnig CPD ac adnoddau am ddim ar gyfer cynllunio rôl yn well**
- **Treialu datrysiadau fel model 'proffesiynol deuol' i rannu gweithwyr ar draws rolau addysgu ac adeiladu a chreu llwybrau gyrfa o adeiladu i addysgu**
- **Ariannu cydweithrediadau a arweinir gan y diwydiant i brofi atebion hyfforddi ac asesu arloesol megis adleoli gweithwyr hŷn**
- **Cynllunio system sgiliau mwy hyblyg ac ystwyth i leihau'r galw a chynyddu capasiti.**

## DEDDF DIOGELWCH ADEILADU

Mae Deddf 2022 yn creu trefn diogelwch adeiladau newydd, gan ddylanwadu ar gylch oes cyfan y prosiect adeiladu. Bydd CITB yn cefnogi busnesau drwy:

- **Hwyluso grwpiau diwydiant i ddatblygu fframweithiau cymhwysedd ar gyfer rolau diogelwch hollbwysig a ddefnyddir gan y Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau**
- **Ariannu atebion a arweinir gan y diwydiant megis codi ymwybyddiaeth ymhlith gosodwyr a'r gweithlu is-gontractwyr**
- **Darparu cyllid ar gyfer cyrsiau byr ar Ddiogelwch Adeiladau ac e-ddysgu am ddim ar ddiogelwch tân**
- **Cynnig cefnogaeth helaeth ar gyfer hyfforddiant Arwain a Rheoli i sicrhau bod rolau allweddol fel goruchwylwyr yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol.**

# CEFNOGI'R DIWYDIANT I HYFFORDDI A DATBLYGU EI WEITHLU



**Rhaid mai cymhwysedd y gweithlu adeiladu cyfan, o'r cwmnïau mwyaf i'r lleiaf, yw ein prif nod. Mae hyn yn hanfodol i fynd i'r afael â phrinder sgiliau, sicrhau bod y diwydiant yn gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol ac i fod yn barod ar gyfer y dyfodol.**

Fodd bynnag, ni fyddwn yn cael digon o effaith ar yr heriau sgiliau drwy newydd-ddyfodiaid yn unig. Yn hytrach, rhaid inni gydbwyso newydd-ddyfodiaid, datblygu'r gweithlu, cadw, ac enillion cynhyrchiant.

Rhaid i'r diwydiant gydnabod yr angen i gael y cydbwysedd cywir rhwng newid eu diwylliant, cadw gweithlu'r dyfodol, wrth ddiwallu anghenion sgiliau uniongyrchol eu busnes.

## I FYND I'R AFAEL Â HYN, BYDDWN YN:

- Arwain y gwaith o ddatblygu diffiniad o gymhwysedd y cytunwyd arno gan y diwydiant ar gyfer pob galwedigaeth adeiladu, gan weithio gyda'r Cyngor Arweinyddiaeth Adeiladu (CLC)
- Datblygu llwybrau ychwanegol, yn seiliedig ar fframweithiau cymhwysedd, i gynnig opsiynau hyblyg wedi'u hariannu i gyflogwyr sydd am uwchsgilio eu gweithlu
- Cefnogi diwydiant i wella cynhyrchiant, trwy gynnig cyllid ar gyfer hyfforddiant, mynediad am ddim i hyfforddiant a chyfleoedd i arloesi drwy'r Gronfa Effaith ar Ddiwydiant
- Gweithio gyda'r Adran Addysg, CLC a phartneriaid diwydiant i ddatblygu cynllun gweithlu, i sicrhau bod gan y diwydiant y sgiliau cywir ar yr amser cywir
- Gweithio gyda Skills England a Chynlluniau Cerdyn i alinio'r system sgiliau o amgylch diffiniad cymhwysedd y cytunwyd arno gan y diwydiant a chwmpasu'r potensial ar gyfer cynllun pasbort sgiliau adeiladu
- Datblygu cofrestr hyfforddi, gan gadw cofnodion manwl o gyflawniadau cymhwysedd unigolion a hyfforddiant
- Parhau i gefnogi ac ariannu mynediad diwydiant i adnoddau ar-lein, gan alluogi Tegwch, Cynhwysiant a Pharch (FIR) a diwylliant, dysgu a datblygu i gefnogi cadw gweithlu
- Trwy Bwyllgor Pobl a Sgiliau CLC, nodi anghenion sgiliau sy'n dod i'r amlwg a chreu datrysiadau hyfforddi, y gellir eu darparu trwy'r Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant
- Ail-gydbwyso cymhellion grant a chyllid i annog cyflogwyr i uwchsgilio eu gweithlu i gymhwysedd.

Canlyniad hyn fydd gweithlu mwy cymwys a mwy o fuddsoddiad yn y gweithlu presennol, gan leihau'r ddibyniaeth ar newydd-ddyfodiaid i ddiwallu anghenion sgiliau'r diwydiant.

Bydd mesurau craidd dros oes y cynllun strategol hwn yn cynnwys:

- **Tystiolaeth o dros 35,000 o gyflogwyr wedi'u cefnogi gyda hyfforddiant uwchsgilio**
- **Dros 5,000 o gyflogwyr newydd yn cymryd rhan mewn hyfforddiant.**

## CYNHYRCHEDD

Mae cynhyrchiant gwell o fudd i fusnesau a'r diwydiant ehangach. Er mwyn mynd i'r afael â'r prinder sgiliau, rhaid inni wella cynhyrchiant ein gweithlu presennol, gan na fydd newydd-ddyfodiaid yn unig yn bodloni'r galw. Gall hyd yn oed enillion cynhyrchiant bach leihau'r bwlch sgiliau yn sylweddol.

Gall gwell cynhyrchiant ddeillio o arferion gwell mewn rheoli ansawdd, rheoli prosiectau, arweinyddiaeth, a sgiliau digidol, yn ogystal â gweithlu mwy cymwys.


Mae newid diwylliant diwydiant yn her a rennir i CITB, busnesau a phartneriaid. I gefnogi hyn, byddwn yn:

- Paru gyda CLC i yrru'r galw am hyfforddiant cynhyrchiant
- Buddsoddi mewn hyfforddiant i helpu busnesau i hybu cynhyrchiant
- Cynnig cymhellion uwch ar gyfer hyfforddiant sy'n gwella cynhyrchiant
- Hyrwyddo a buddsoddi mewn gweithlu cymwys
- Cefnogi cydweithrediadau sy'n profi ffyrdd newydd o wella arferion diwydiant.

# GWYBODAETH ARIANNOL



Mae ein buddsoddiad dros oes y cynllun strategol yn cyd-fynd yn agos â'r blaenoriaethau y mae cyflogwyr adeiladu wedi gofyn inni eu cyflawni. Mae'r gyfran fwyaf o fuddsoddiad mewn 'ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu', sy'n cynnwys y grant Prentisiaeth sy'n cael ei dalu. Dyma'r maes y mae cyflogwyr wedi dweud wrthym sydd bwysicaf iddyn nhw.



**48%** Ysbrydoli a galluogi pobl amrywiol a medrus i mewn i adeiladu

**27%** Cefnogi'r diwydiant i hyfforddi, datblygu a chadw ei weithlu

**12%** Datblygu system hyfforddiant a sgiliau i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol

**13%** Rhedeg y busnes a gweinyddu grantiau

### EFFEITHLONRWYDD AC ARBEDION

Mae defnyddio'r lefi i greu'r effaith fwyaf ar gyfer diwydiant yn gyrru pob penderfyniad a wnawn, a dyna pam mae cyflogwyr a chynrychiolwyr diwydiant wrth galon gwneud y penderfyniadau hynny. Ond mae'n bwysig ein bod hefyd yn darparu cymaint o werth ag y gallwn. Dyna pam y byddwn yn parhau i fuddsoddi adnoddau i sicrhau mwy o effeithlonrwydd ac arbedion dros oes y cynllun hwn. Byddwn yn cymryd camau i gyrraedd y targed effeithlonrwydd o 5% a osodwyd gan y Llywodraeth sy'n berthnasol i bob Corff Hyd Braich.



## ADEILADU CARTREFI

Mae Llywodraeth y DU wedi gosod targed o 1.5 miliwn o gartrefi newydd erbyn diwedd y Senedd hon, i fyny o 233,000 yn 2022.

Yn ogystal â'n cymorth a'n cyllid ehangach, mae CITB yn partneru â NHBC a'r sector adeiladu tai i greu Hybiau Sgiliau Adeiladu Cartrefi. Bydd y rhain yn cefnogi hyfforddiant cyflym a phrentisiaethau ar gyfer meysydd diwydiant hollbwysig.

Nod CITB yw lansio hyd at 32 o ganolfannau erbyn 2027, gan greu hyd at 8,300 o brentisiaethau a swyddi newydd bob blwyddyn pan fyddant yn llawn. Bydd yr amserlen a'r lleoliadau yn dibynnu ar y galw.

Bydd buddsoddiad CITB yn cwmpasu cydlynu rhaglenni, cymorth i gyflogwyr a dysgwyr drwy ei Dîm Cymorth i Newydd-ddyfodiaid (NEST), grantiau i gyflogwyr, a chyrsiau mynediad ar gyfer hyd at 5,300 o ddechreuadau prentisiaethau.

## SEILWAITH

Bydd Strategaeth Seilwaith Cenedlaethol Llywodraeth y DU, sy'n cael ei lansio yng Ngwanwyn 2025, yn arwain datblygiad seilwaith Prydain Fawr, gan alinio â blaenoriaethau fel twf economaidd, cynaliadwyedd, a thegwch rhanbarthol. Bydd CITB yn cydweithio ag ECITB i ddarparu'r gweithlu ar gyfer prosiectau mawr fel Sizewell C.

Mae CITB yn cefnogi datblygiad Cynllun Sgiliau Sector Seilwaith, wedi'i ysgogi gan randdeiliaid y diwydiant, i fynd i'r afael ag anghenion hyfforddi a heriau sector megis denu a chadw newydd-ddyfodiaid, ansawdd hyfforddiant, a chymorth gan gyflogwyr. Mae Cynlluniau Sector yn rhoi mwy o ddylanwad i gyflogwyr wrth gyfeirio cymorth a buddsoddiad CITB.

Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi'r sector seilwaith gyda grantiau, cyllid, a gwasanaethau fel y Tîm Cymorth i Newydd-ddyfodiaid.

## ÔL-OSOD A SERO NET

Mae sgiliau ôl-osod yn hanfodol wrth i'r diwydiant weithio tuag at dargedau Sero Net cenedlaethol, gan gynnwys uwchraddio 5 miliwn o gartrefi i sgôr EPC C.

Bydd CITB yn rhagweld y galw am sgiliau yn y dyfodol ar gyfer sero net ac ôl-osod, gan greu safonau newydd lle bo angen. Rydym wedi lansio'r Pecyn Cymorth Sero Net i gefnogi cyflogwyr, byddwn yn cymell hyfforddiant trwy Rwydweithiau Cyflogwyr ac yn darparu mynediad i ddysgu ar-lein. Lle mae bylchau cyflenwad, fel mewn cladin allanol, byddwn yn comisiynu hyfforddiant i fynd i'r afael â nhw.

Mae cynllun sgiliau sector RMI, a arweinir gan FMB a NFB, yn cynnwys cangen ôl-osod, gydag ymchwil ar anghenion ôl-osod penodol yn allweddol i'w gyflawni.

Byddwn hefyd yn defnyddio'r her sgiliau sero net i ddenu gweithlu ehangach, iau sydd â diddordeb mewn gyrfaoedd gwyrdd.

## CYFLINIAD STRATEGOL Â'R ADOLYGIAD ITB

Mae adolygiad y Llywodraeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar o Fyrddau Hyfforddi'r Diwydiant yn cydnabod ac yn cytuno â'n barn ni a barn y diwydiant mai'r model ITB a lefi yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r heriau y mae diwydiant yn eu hwynebu. Mae ein cynllun strategol eisoes yn cyd-fynd â llawer o argymhellion y Llywodraeth ac mae gwaith mewn rhai o'r meysydd hyn eisoes wedi datblygu'n dda.

Mae system sgiliau sy'n seiliedig ar gymhwysedd yn parhau i fod yn rhan greiddiol o'n strategaeth a bydd yn darparu'r sylfaen ar gyfer ariannu llwybrau newydd yn seiliedig ar gymhwysedd ar gyfer gweithwyr newydd a phresennol gyda dull mwy modiwlaidd sy'n cwmpasu'r daith yrfa gyfan, gan gynnwys ailsgilio ac uwchsgilio.

Bydd cynllunio gweithlu strategol yn elfen graidd o wneud yn siŵr bod y sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr nawr, ac yn y dyfodol, yn gallu cael eu darparu gan ein Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant a bydd ein gwaith partneriaeth parhaus ag ECITB yn sicrhau bod prosiectau mawr fel Sizewell C yn cael eu cefnogi gyda'r sgiliau sydd eu hangen.

Mae cynhyrchiant a chadw wedi'u gwreiddio ar draws y cynllun strategol gan ein bod yn cydnabod nad newydd-ddyfodiaid yw'r unig ateb, gyda chynlluniau i helpu i gadw a chynhyrchiant wedi'u hymgorffori mewn amrywiaeth o weithgarwch yn ogystal ag ymyriadau penodol.

Mae nifer o argymhellion y bydd angen eu cwmpasu ymhellach, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'r Llywodraeth, ECITB, Skills England a diwydiant i ganfod y ffordd orau o roi'r argymhellion hyn ar waith.

citb.co.uk/cy-gb/